
Parhad… thechnoleg a phrofiad a gwybodaeth, gyda thystiolaeth o hynny mewn rhannau eraill o ddatblygiad cynlluniau llwyddiannus mewn cymunedau gwledig eraill yng ngogledd Cymru. Gall dichonolrwydd datblygu datrysiad ynni lleol, fyddai'n cynnwys datrysiadau carbon isel eraill i drigolion a busnesau Dolwyddelan fod yn fwy realistig erbyn hyn, ac rydym ni'n gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i edrych ymhellach ar y mater hwn.




## CAPEL BETHEL – DYCHMYGWCH...

Criw o drigolion Dolwyddelan ydym ni, sydd â'r un weledigaeth, sef i drawsnewid Capel Bethel, sy'n ganolog a gweladwy iawn, adeilad hanesyddol sy wedi'i esgeuluso, i fod yn ased cymunedol gwych, a fydd yn darparu:

- Canolfan treftadaeth hanesyddol
- Siop ac oriel crefftwyr lleol
- Canolfan groeso
- Beirdd ac artistiaid preswyl
- Siop atgyweirio
- Canolfan llesiant gan gynnwys ffisiotherapi
- Rhandiroedd
- Gweithgareddau awyr agored

*Grŵp Gweithredu Bethel (BAG) Dolwyddelan - Elusen gyfansoddiadol a sefydlwyd o ganlyniad i'r Arolwg Cymunedol.*